

Dweud eich dweud...

Mae'r cynlluniau i ddatblygu Awel y Môr, chwaer-brosiect Fferm Wynt Alltraeth Gwynt y Môr oddi ar arfordir Gogledd Cymru, yn mynd yn eu blaenau. Mae'r fîm yn eich gwahodd i fwrw golwg ar ein cynlluniau hyd yma, ac yn croesawu eich adborth yn ystod y cam cynnar hwn yn y prosiect.

Mae'r ymgynghoriad anffurfiol hwn yn cael ei gynnal ar-lein a bydd yn fyw ar wefan y prosiect rhwng **3 - 30 Tachwedd 2020**: www.awelymor.cymru

Bydd yr ymgynghoriad yn cyflwyno'r prosiect ac yn chwilio am adborth ar y meysydd arfaethedig canlynol:

- Seilwaith ar y tir
 - lleoliadau glanfa (lle mae'r ceblau alltraeth yn cwrdd â'r tir)
 - llwybrau cebl ar y tir
 - lleoliadau is-orsafoedd ar y tir
- Seilwaith alltraeth
- Holl ystyriaethau eraill y prosiect

Fel un o'r mathau glanaf o gynhyrchu ynni, mae gan brosiectau alltraeth fel Awel y Môr rôl allweddol wrth leihau allyriadau carbon, creu cyfleoedd am swyddi a helpu Cymru i fodloni ei thargedau ynni adnewyddadwy.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â ni yn: awelymor@rwe.com

